COFNOD O GYFARFOD Y PWYLLGOR TROSOLWG PWNC A CHRAFFU 1 A GYNHALIWYD YN HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB AR DDYDD IAU, 11 EBRILL 2024 AM 10:00

Yn bresennol

Y Cynghorydd A Williams – Cadeirydd

| | |
|---|---|
| M Jones | E D Winstanley |

Yn Bresennol yn Rhithiol

| | | | |
|---|---|---|---|
| M J Evans | J Llewellyn-Hopkins | T Thomas | AJ Williams |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

R J Collins, D M Hughes ac I M Spiller

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chymorth i Deuluoedd |
| Becca Avci | Cydlynydd Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg |
| Sarah Roberts | Rheolwr Grŵp (Cymorth i Ysgolion) |
| Rachel Keepins | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |
| Lucy Beard | Swyddog Craffu |

Aelodau Cabinet

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Huw David | Arweinydd y Cyngor |
| Y Cynghorydd Jon-Paul Blundell | Aelod Cabinet dros Addysg |

Gwahoddedigion

| | |
|---|---|
| Clara Seery | Rheolwr Gyfarwyddwr Consortiwm Canolbarth y De |
| Andrew Williams | Cyfarwyddwr Cynorthwyol - Consortiwm Canolbarth y De |

| | |
|---|---|
| Darren Jones | Prif Bartner Gwella - Consortiwm Canolbarth y De |
| Natalie Gould | Cyfarwyddwr Cynorthwyol y Cwricwlwm a Dysgu Proffesiynol |
| Neil Davies | Pennaeth, Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig |
| Nicola Kelly Fisher | Pennaeth, Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair a Sant Padrig |
| Ryan Davies | Pennaeth, Ysgol Gyfun Brynteg |
| Catrin Evans | Pennaeth Cynorthwyol, Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd |
| Ms Angela Clark | Cynrychiolydd Cofrestredig Yr Eglwys yng Nghymru |

Datganiadau o Fuddiant

Y Cynghorydd Amanda Williams - Personol - Cynghorydd Awdurdod Lleol Tri phlentyn mewn ysgol gyfun yn y fwrdeistref.
Y Cynghorydd Melanie Evans - Personol - Cynghorydd yn Ysgol Gynradd Croesty ac Ysgol Gyfun Pencoed. Mab yn mynychu Ysgol Gyfun Pencoed.
Y Cynghorydd Johanna Llewellyn-Hopkins - Personol - Cynghorydd. Plant yn mynychu ysgolion lleol.
Buddiant sy'n rhagfarnu - Yn y broses o sefydlu meithrinfa Gymraeg.

## 40. Cymeradwyo Cofnodion

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD: Y dylid cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg Pwnc a Chraffu 1 dyddiedig 26 Mai 2023, 11 Medi 2023, 12 Hydref 2023 ac 18 Ionawr 2024 fel gwir gofnod cywir. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 11 Ebrill 2024 |

## 41. Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (2022-2032)

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD: Ar ôl ystyried yr adroddiad a'r drafodaeth fanwl a gafwyd gydag Aelodau o'r Cabinet ac Uwch Swyddogion, gwnaed y sylwadau a'r argymhellion canlynol gan y Pwyllgor:<br><br>1. Tra'n cydnabod bod adroddiad Blynyddol WESP 2022-23 wedi'i gyhoeddi cyn cymeradwyo'r MTFS 2024-25 i 2027-28 yn ddiweddar, mynegodd y Pwyllgor bryderon dybryd ynghylch y goblygiadau ariannol sylweddol oedd nawr yn wynebu'r Awdurdod Lleol, a allai, o bosib amharu ar y modd y |

| | |
|---|---|
| | byddai'r dyheadau ac ymrwymiadau a gynhwysir yn yr WESP yn cael eu cyflawni.<br><br>Mae enghraifft o hyn yn berthnasol i'r cynnig i gynyddu capasiti yn Ysgol Gymraeg Bro Ogwr ac Ysgol y Ferch o'r Sgêr yn ogystal â datblygu ysgol feithrin ym Mhorthcawl, o ystyried bod cynnig yn yr MTFS cyfredol i leihau darpariaeth feithrin i'r isafswm statudol o 2025-26. Roedd pryderon pellach yn gysylltiedig gyda'r hybiau gofal plant cyfrwng Cymraeg a'r ffaith fod dau hwb a godwyd ym Metws a Blackmill yn dal i fod yn wag, a phe na bai'n bosib dod o hyd i ddarparwyr, byddant yn parhau i fod yn wag. Nid yn unig oedd hyn yn achosi risg i enw da'r Awdurdod Lleol, ond yr oedd hefyd yn risg ariannol i'r gwariant Cyfalaf ar ddarpariaeth feithrin a darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg, gyda'r olaf hefyd yn achosi goblygiadau refeniw parhaus i'r Awdurdod Lleol.<br><br>Argymhellodd y Pwyllgor gan hynny bod:<br><br>a) Y dylid diwygio a diweddaru (os yn bosib) y cynllun Pum a Deng Mlynedd WESP i adlewyrchu'r goblygiadau ariannol diweddar gan gynnwys traweffaith unrhyw newidiadau arfaethedig ar ddarpariaeth Feithrin a darpariaeth Cludo o'r Cartref i'r Ysgol, a oedd hefyd wedi'i amlygu o fewn y gostyngiadau yng nghyllideb MTFS y dyfodol.<br><br>b) Y dylai'r ddau gynllun gael eu diwygio i adlewyrchu sefyllfa bresennol yr hybiau gofal plant, gan fod y cynllun yn awgrymu bod y rhai ym Metws a Blackmill eisoes wedi agor.<br><br>c) Y dylai pryderon y Pwyllgor mewn perthynas â risg i enw da o gael hybiau gofal plant cyfrwng Cymraeg gwag, yn ogystal â'r risg ariannol parhaus o arian refeniw oedd yn angenrheidiol ar gyfer y ddarpariaeth hon, gael eu dwyn i sylw'r Ysgrifennydd Cabinet dros Addysg.<br><br>2. Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i amserlen adroddiad blynyddol WESP gan argymell y dylent dderbyn diweddariad yn cynnwys y drafft adroddiad blynyddol WESP ar gyfer 2023-24, cyn iddo gael ei gymeradwyo gan y Cabinet ym mis Medi 2024, er mwyn iddynt allu ymgymryd â chraffu cyn penderfynu a chael mwy o effaith.<br><br>3. Tra'n gwerthfawrogi bod adroddiadau unigol yr is-grwpiau yn cynnwys y diweddariadau diweddaraf, argymhellodd y Pwyllgor fod y Cynllun Pum Mlynedd WESP mwyaf angen cynnwys y diweddariadau hynny fel bod darlun llawn yn gallu cael ei ddarparu i'r Pwyllgor Craffu ochr yn ochr â'r Adroddiad Blynyddol. Pe na bai hyn yn bosib, gofynnodd y Pwyllgor am iddynt dderbyn cynlluniau'r is-grŵp gyda'r |

| | |
|---|---|
| | diweddariadau hyn.<br><br>4. Argymhellodd y Pwyllgor y dylai'r Adroddiad Blynyddol gynnwys ffigyrau a gwybodaeth yn berthnasol i'r gwaith yr ymgymerwyd ag o gyda meithrinfeydd Saesneg eu hiaith er mwyn annog defnyddio'r iaith Gymraeg.<br><br>5. Trafododd yr Aelodau nifer y staff dysgu oedd yn gallu dysgu Cymraeg (fel pwnc) a dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg o safbwynt cyfrifiad blynyddol gweithlu'r ysgol, oedd yn dangos sgiliau'r athrawon drwyddo draw, o sgiliau sylfaenol i hyfedredd. Nododd y Pwyllgor fod yr ystadegau yn sefyll ar eu pen eu hunain ac argymhellwyd y dylid dwyn cymhariaeth gydag Awdurdodau Lleol eraill gyda nodweddion tebyg er mwyn cynorthwyo Aelodau i ddeall y lefel sgiliau ar gyfer athrawon.<br><br><u>Gwybodaeth ychwanegol</u><br><br>• Gwnaeth y Pwyllgor gais am eglurder ynghylch y pedair ffynhonnell ariannu newydd oedd wedi'u cytuno arnynt gan Lywodraeth Cymru fel rhai oedd yn flaenoriaeth o safbwynt yr iaith Gymraeg.<br><br>• Trafododd yr Aelodau fater cefnogaeth rhieni yn ogystal â'r hyn oedd yn llywio penderfyniadau rhieni wrth ddewis anfon eu plant i ysgolion cyfrwng Saesneg neu Gymraeg. Argymhellodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chefnogaeth Teulu y byddai'n trafod gyda Thîm Mynediad i'r Ysgol ynghylch pa wybodaeth oedd ar gael neu y gellid, o bosib, ei chasglu.<br><br>• Roedd y Pwyllgor yn cefnogi'r gwaith oedd yn cael ei wneud a'r gefnogaeth oedd yn cael ei darparu i ddisgyblion gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) o fewn addysg Cyfrwng Cymraeg ac roeddent o'r farn y byddai Aelodau yn cael budd o dderbyn astudiaethau achos dienw lle roedd plant gydag ADY wedi llwyddo i gyflawni cyrhaeddiad addysgol uchel.<br><br>• Cafwyd cais gan y Pwyllgor am ragor o wybodaeth ynghylch pa gynlluniau cymhelliant oedd ar gael gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd er mwyn annog a chynyddu nifer yr athrawon cyfrwng Cymraeg. |

| | |
|---|---|
| | Y Flaenraglen Waith<br><br>Cytunodd y Pwyllgor i ystyried Addysg Cyfrwng Cymraeg o dan eu heitem ar Foderneiddio Ysgolion yn y dyfodol a chafwyd cais am iddynt dderbyn tystiolaeth bod yr Awdurdod Lleol wedi casglu 'yn ôl y galw' ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg a darpariaeth gofal plant ychwanegol, fel rhan o'r adroddiad hwn, yn arbennig felly mewn ardaloedd megis Porthcawl lle roedd datblygiadau yn yr arfaeth. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 11 Ebrill 2024 |

## 42. Adroddiad Craffu Awdurdod Lleol Blynyddol Consortiwm Canolbarth y De 2022-23

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD: Ar ôl ystyried yr adroddiad a'r drafodaeth fanwl a gafwyd gydag Aelodau o'r Cabinet ac Uwch Swyddogion, gwnaed y sylwadau a'r argymhellion canlynol gan y Pwyllgor:<br><br>1. Trafododd yr Aelodau eu hystyriaeth o'r adroddiad blynyddol diwethaf a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan Gonsortiwm Canolbarth y De (CSC) gan argymell y dylai craffu cyn gwneud penderfyniad ar Gynllun Busnes 2025-2028 gael ei ymgorffori ym mhroses gynllunio'r CSC er mwyn galluogi i'r Pwyllgor ddarparu gwerth i'r broses.<br><br>2. Roedd y Pwyllgor yn cydnabod y cyfyngiadau roedd Llywodraeth Cymru wedi eu gosod ar rannu a chyhoeddi data perfformiad yn gyhoeddus.  Argymhellwyd, fodd bynnag, gyda chytundeb gan gynrychiolwyr o Gonsortiwm Canolbarth y De, y byddai'n ddefnyddiol cynnwys manylion pellach am beth o ddadansoddiad perfformiad ALPau, megis nifer y rhai oedd yn sefyll arholiad lefel 'A', mewn adroddiadau yn y dyfodol, gan y byddai hyn yn rhoi darlun gwell.<br><br>Gwybodaeth ychwanegol y gwnaed cais amdani<br><br>• Gofynnodd yr Aelodau am wybodaeth ychwanegol am gyllid grant; sut oedd hwn yn cael ei ddyrannu a'i neilltuo yn ogystal ag eglurder ynghylch y fformiwla ariannu gysylltiedig. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 11 Ebrill 2024 |

## 43. Adroddiadau Gwybodaeth i’w Nodi - Dysgu Oedolion yn y Gymuned

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor yn cydnabod cyhoeddi'r wybodaeth yn yr adroddiad ar Ddysgu Oedolion yn y Gymuned. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 11 Ebrill 2024 |

## 44. Adroddiad Gwybodaeth i’w Nodi - Perfformiad Chwarter 3 2023-24

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor yn cydnabod cyhoeddi'r adroddiad gwybodaeth ar Berfformiad Chwarter 3 2023-24.<br><br>Gwnaeth y Pwyllgor sylw yn ogystal ar y Cynllun Corfforaethol a'r ffaith fod ganddo saith nod llesiant a rhwng 220 a 230 o amcanion gyda graddfeydd Coch, Ambr a Gwyrdd (RAG), gan awgrymu bod gormod ohonynt a bod angen eu symleiddio. Gwnaeth yr Aelodau gais am i hyn gael ei gyfeirio at y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol i'w ystyried yn y dyfodol. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 11 Ebrill 2024 |

## 45. Diweddariad ar y Flaenraglen Waith

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD: Ystyriodd y Pwyllgor Adroddiad y Flaenraglen Waith a'i atodiadau gan eu nodi, a chytuno bod angen ystyried blaenoriaethau allweddol ar gyfer eitemau yn y dyfodol.<br><br>Penderfynodd yr aelodau hefyd:<br><br>• Y dylid rhoi ystyriaeth i'r effaith ar y WESP wrth edrych ar yr eitem Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol gan gynnwys polisi trafnidiaeth ac unrhyw newidiadau wrth symud ymlaen.<br><br>• Y dylid gwneud cais am wybodaeth ynghylch yr hybiau gofal plant, ac y dylai cyfleusterau yn yr ardaloedd sydd eu hangen yn seiliedig ar dystiolaeth LDP fod ar gael ar gyfer y Diweddariad ar Foderneiddio Ysgolion sydd wedi'i gynllunio ar gyfer y FWP. |

| | |
|---|---|
| | • Y dylid sefydlu panel craffu archwiliad dwfn o blith aelodaeth y Pwyllgor er mwyn gallu ystyried cefnogaeth y Corff Llywodraethu ac ariannu mewn mwy o fanylder gydag unrhyw argymhellion yn cael eu hadrodd yn ôl i'r prif bwyllgor. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 11 Ebrill 2024 |

**46. Eitemau Brys**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Dim |
| Dyddiad y Penderfyniad | 11 Ebrill 2024 |

Er mwyn edrych ar y drafodaeth bellach a gafwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch y ddolen hon.

Daeth y cyfarfod i ben am 14:27.